WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales




# ABERTEIFI

# Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## Tabl Cynnwys

### Arfarniad Ardal Gadwraeth Aberteifi


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Cyflwyniad i Ardal Gadwraeth Aberteifi | 4 |
| 3. | Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau | 6 |
| 4. | Diffiniad o Ddiddordeb Pensaerniol neu Hanesyddol Arbennig | 10 |
| 5. | Cyd-destun Ffisegol | 14 |
| 6. | Datblygiad Hanesyddol | 16 |
| 7. | Dadansoddiad Gofodol | 22 |
| 8. | Cymeriad Pensaerniol | 25 |
| 9. | Asedau Dynodedig ac Adeiladau Lleol Pwysig | 30 |
| 10. | Cymdeithasau Hanesyddol | 33 |
| 11. | Hanesion Cudd | 37 |
| 12. | Bioamrywiaeth | 38 |
| 13. | Materion—Dadansoddiad CGCB | 43 |


### Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberteifi


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 44 |
| 2. | Cyfarwyddiadau Erthygl 4 | 44 |
| 3. | Adolygiad Ffin | 46 |
| 4. | Yr angen am Ganllawiau Dylunio Manwl neu Wybodaeth Gyhoeddus | 51 |
| 5. | Cyfleoedd ar gyfer Rhestru Lleol | 53 |
| 6. | Ystyried Gorfodi | 55 |
| 7. | Cyfleoedd ar gyfer Adfywio | 56 |
| 8. | Canllawiau Hysbysebu a Rheoli | 59 |
| 9. | Adeiladau mewn Perygl | 60 |
| 10. | Gwelliannau Amgylcheddol | 62 |
| 11. | Coed, Tirwedd a Mannau Agored | 64 |
| 12. | Monitro ac Adolygu | 66 |
| Atodiad A: Cynllun Gweithredu | | 68 |
| Atodiad B: Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth | | 71 |

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.

1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.




*Ffig. 1 Canol tref hanesyddol prysur Aberteifi*

1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.

1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.

1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol **gadw neu wella** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.

1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.

1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.



*Ffig. 2 Rhan o Ardal Gadwraeth Aberteifi ar draws afon Teifi*

### 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.

1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.

1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

## 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH ABERTEIFI

### 2.1 Dynodiad a Ffin yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Aberteifi yn 1969 a diwygiwyd ei ffin yn 1989 ac eto yn 2001. Gwnaed Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn yr Ardal Gadwraeth yn 2001/2002. Mae Cynllun Rheoli Cadwraeth drafft 2011 ar gyfer yr ardal gadwraeth.

***Ffig. 3 Ffin bresennol Ardal Gadwraeth Aberteifi***



## 2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Saif Aberteifi ar aber afon Teifi ym mhen deheuol Ceredigion, yn y fan lle mae Ceredigion yn cwrdd â Sir Benfro. Aberteifi oedd tref sirol sir hanesyddol Ceredigion ac erbyn hyn dyma ail dref fwyaf Ceredigion. Mae'r dref hanesyddol wedi'i lleoli'n bennaf i'r gogledd o'r afon ac yn cynnwys man pontio olaf afon Teifi cyn y môr 3 milltir i'r gogledd-orllewin. Fe'i lleolwyd yma i reoli mynediad afon Teifi i Fae Ceredigion a Môr Iwerddon.

2.2.2 Mae gan Aberteifi ddaeareg creigwely gymhleth gyda chymysgedd o fathau o dywodfaen a cherrig llaid – creigwely gwaddodol a ffurfiwyd 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl yn ystod y cyfnod Ordofigaidd. Y dyddodion arwynebol yw til a rhewlifol, Defensaidd (Iâ Môr Iwerddon) a ffurfiwyd rhwng 116 a 11.8 mil o flynyddoedd yn ôl yn ystod y cyfnod Cwaternaidd.

2.2.3 Mae'r dref wedi'i lleoli ar lannau'r Teifi ger aber afon Teifi. Mae craidd y dref, gyda'i gwreiddiau canoloesol, wedi'i lleoli ar benrhyn bach yn ymwthio allan o lannau gogleddol afon Teifi. Mae gweddill y dref wedi'i gwasgaru'n bennaf ar y tir sy'n wynebu'r de ac yn disgyn yn raddol i'r gogledd a'r dwyrain, gyda'r darn llai Bridgend ar y lan ddeheuol.

## 2.3 Disgrifiad Cryno

2.3.1 Dechreuodd Aberteifi fel tref gastell ganoloesol a oedd yn gysylltiedig o bosibl ag anheddiad Cristnogol cynnar yn Llandudoch. Roedd y castell a'r dref gysylltiedig yn strategol bwysig ac yn wobr ddadleuol yn yr ysgarmesoedd canoloesol rhwng y Cymry brodorol a'r Normaniaid a ymgartrefodd yma. Yn ddiweddarach daeth yn ganolfan forwrol bwysig. Heddiw, mae'n dref fywiog a chain yn aml, yn frith o adeiladau hanesyddol o ddiwedd y cyfnod Sioraidd a Fictoraidd yn bennaf, ac wedi'i chynllunio i'r gogledd o ardal y castell mewn patrwm strydoedd grid canoloesol traddodiadol. Mae adeiladau dinesig a chymunedol allweddol fel Neuadd y Sir / Old Shire Hall, capeli/eglwysi, tafarndai a banciau yn torri ar draws yr ardal fasnachol, tra bod eglwys y plwyf, Eglwys y Santes Fair, yn dominyddu'r ochr ddwyreiniol. Mae’n bosibl mai’r ochr orllewinol yn Lôn y Farchnad a Stryd y Cei roedd ehangder y dref fel yr awgrymir gan gatiau’r dref ganoloesol ar hyd Stryd y Cei sy’n arwain i lawr i’r afon Mwldan a oedd unwaith yn frith o lanfeydd a datblygiadau morwrol. I'r gogledd mae datblygiad preswyl cain o ddiwedd Oes Fictoria yn nodweddiadol, ac afon Teifi a'r castell yw'r prif nodweddion yn y de.

# 3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

## 3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn

unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.




*Ffig. 4 Golygfa gyffredinol o Stryd y Priordy / Priory Street*

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

## 3.2 DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

3.2.1 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Diddymodd y ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau a Henebion Hanesyddol 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979

- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.2.2 Mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol: roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw: yr adeilad rhestredig; gosodiad yr adeilad; ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

3.2.3 Mae Deddf 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

### 3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.

3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.

3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.

3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, a Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ymysg eraill.




***Ffig. 5 Bythynnod o ddechrau'r 18fed ganrif. Dau o'r ychydig adeiladau yn y dref sy'n dyddio o'r cyfnod cyn yr adeiladu mawr ar ddiwedd y 18fed ganrif i ddechrau'r 19eg ganrif***

3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

## 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o

15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd (CDLl2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLl1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.

3.4.2 Yn CDLl1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

## 4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

### 4.1 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

| ARWYDDOCÂD TYSTIOLAETHOL | ARWYDDOCÂD HANESYDDOL | ARWYDDOCÂD ESTHETIG | GWERTHOEDD CYMUNEDOL |
|---|---|---|---|
| UCHEL | UCHEL | UCHEL | UCHEL |

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Nid yw gwerth 'uchel' yn golygu na ellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.

- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chrefftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.




***Ffig. 6 Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth***

## 4.2 Tystiolaethol

4.2.1 Mae gweddillion adeiladau canoloesol mawr yn dal i sefyll yn Aberteifi ac mae llawer o gynllun canol y dref yn dal i ddatgelu llawer iawn am ei gwreiddiau canoloesol. Mae gan y dref nifer dda o adeiladau ôl-ganoloesol diweddarach arwyddocaol hefyd sydd wedi goroesi fel y gwelir yn nifer y safleoedd sydd wedi cael eu diogelu fel Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig.

4.2.2 Mae llawer o'r adeiladau yng nghanol y dref wedi cadw eu strwythur a'u nodweddion pensaernïol Sioraidd. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer deall y gymdeithas Sioraidd a'i heffaith ar Orllewin Cymru, technegau ac arddulliau adeiladu a datblygiad y dref yn y cyfnod hwn.

4.2.3 Mae'r addasiadau ac adeiladau Fictoraidd yn y dref yn adrodd hanes y grymoedd cymdeithasol ac economaidd amrywiol oedd ar waith yn ystod y cyfnod hwn a datblygiad ac effaith mathau newydd o drafnidiaeth a busnesau lleol, megis y gwaith brics, a dylanwad ffasiwn, lleoedd a phobl o ymhellach i ffwrdd nag oedd yn bosibl o'r blaen.

4.2.4 Mae'r daliadau archifol a'r ymchwil hanesyddol a wnaethpwyd ar gyfer Aberteifi yn adnodd toreithiog a gwerthfawr.

4.2.5 Mae gan Aberteifi botensial archeolegol helaeth.

## 4.3 Hanesyddol

4.3.1 Credir mai Castell Aberteifi yw'r castell cerrig cyntaf a godwyd erioed gan Gymro. I ddathlu ei chwblhau yn 1176, cynhaliodd yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd gynulliad o feirdd, cerddorion, a pherfformwyr, sef yr Eisteddfod gyntaf, a dechrau'r traddodiad Cymreig o wyliau diwylliannol sy'n parhau hyd heddiw.

4.3.2 Tyfodd y dref yn gyflym yng nghysgod y castell, gan ddod yn ganolbwynt i reolaeth frodorol y Cymry a Brenhinol trwy gydol ei hanes canoloesol cythryblus. Roedd safle Aberteifi fel y dref sirol a'i chysylltiadau morol yn golygu bod y dref wedi cadw ei phwysigrwydd yng Ngorllewin Cymru trwy gydol llawer o'r cyfnod ôl-ganoloesol dilynol.

4.3.3 Erbyn dechrau'r 13eg ganrif roedd yr anheddiad yn Aberteifi yn cael ei ystyried yn “privileged, fortified island of commercial activity, broad horizons, administrative autonomy and strategic importance” (Griffiths, R.A. 1990. 'The Making of medieval Cardigan in Ceredigion, Cyfrol xi, Rhif 2, td 97-133).

4.3.4 Bu Aberteifi yn dyst i ddigwyddiadau hanesyddol allweddol, cymeriadau a thueddiadau cenedlaethol a rhanbarthol megis y gwrthdaro canoloesol treisgar ac aflonyddgar yng Nghymru rhwng y Normaniaid a'r Cymry brodorol; twf a dirywiad y diwydiant morwrol yng Ngorllewin Cymru ac yn genedlaethol; effaith y twf ym mhoblogrwydd a ffyniant Gorllewin Cymru yn y cyfnod Sioraidd; twf twristiaeth; ac effaith y rheilffyrdd, ymysg eraill.

## 4.4 Esthetig

4.4.1 Mae Aberteifi yn dref ddeniadol sydd wedi'i gwneud yn fwy arbennig gan fuddsoddiad parhaus a helaeth yn ei seilwaith hanesyddol. Mae'n boblogaidd gyda thwristiaid a phobl leol fel ei gilydd.

4.4.2 Mae'r adeiladau hanesyddol, ei lleoliad ar lan yr afon a'i strydoedd troellog a lonydd bach, yn cyfrannu'n fawr at werth esthetig y dref ac yn creu ymdeimlad o ddarganfod ac ymgysylltu. Mae dylunio modern o ansawdd uchel, er enghraifft yn y castell, wedi cyfrannu at ei harwyddocâd.

4.4.3 Mae ychydig o ardaloedd diwydiannol neu fasnachol modern yn bennaf sy'n amharu ar ei gwerth esthetig. Mae'r rhain y tu allan i ganol y dref yn gyffredinol. Mae'r ychydig adeiladau hanesyddol gwag yn y brif ardal siopa hefyd yn amharu ar ei atyniad gweledol.




***Ffig. 7 Er gwaethaf eu harwyddocâd hanesyddol gall adeiladau gwag amharu ar werth esthetig yr ardal gadwraeth***

## 4.5 Gwerthoedd Cymunedol

4.5.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis Neuadd y Dref / Guildhall, Neuadd y Sir, castell, eglwysi, tafarndai, capeli, siopau, bwytai, gwestai, ac eraill.

4.5.2 Mae'r prif weithgarwch masnachol ac economaidd yn digwydd o fewn ffin yr ardal gadwraeth sy'n golygu bod gan yr ardal werth cymunedol uchel ar gyfer incwm a chyflogaeth.

4.5.3 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn, anfonwyd arolwg cychwynnol at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth, ac a oedd unrhyw broblemau. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r arolwg hwn.

4.5.4 Er mwyn casglu sylwadau cyhoeddus ar y drafft cyntaf o'r arfarniad a'r cynllun rheoli, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus galw heibio yn Aberteifi ym mis Medi 2023. Roedd yr arfarniad a'r cynllun rheoli drafft hefyd ar gael i'w lawrlwytho trwy ddolen we. Daeth tri pherson i'r sesiwn a chafwyd nifer o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i ddiwygio'r arfarniad. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r materion canlynol, ymhlith eraill:

- Cefnogaeth ac awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau, twristiaeth a darparu dehongliad
- Cefnogaeth ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd penodol, materion priffyrdd a goleuadau stryd
- Cynnig cefnogaeth a chymorth ar gyfer llunio'r 'rhestr leol'
- Cydnabod pwysigrwydd pensaernïaeth y dref
- Cydnabod pwysigrwydd hanes y dref, yn enwedig ei hanes canoloesol a morwrol
- Prosiectau sydd wedi ac yn cael eu cyflawni gan Gymdeithas Aberteifi i wella'r dref

4.5.5 O brofiad, ystyrir bod y gyfradd ymgysylltu hon braidd yn isel ar gyfer tref fel Aberteifi. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar bod y gymuned leol yn ymfalchïo yn y dref, ei phensaernïaeth a'i hanes, a hoffent iddi gael ei chadw a'i gwella.

## 5. CYD-DESTUN FFISEGOL

### 5.1 Cymeriad Tirwedd

5.1.1 Mae adnodd LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod Aberteifi o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 'Dyffryn Teifi'. Er bod llawer o asesiadau tirwedd yn gyffredinol iawn, mae asesiad Aberteifi yn fanwl ac yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn. Mae datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn nodi:

"Cardigan is a complex urban historic landscape character area lying mainly on gently sloping south-facing land on the north bank of the Afon Teifi, but including a smaller but nevertheless substantial component on the opposite bank. Older elements of the town are mainly confined within the circuit of the medieval town walls (now almost entirely gone), with a focus on the remains of the medieval castle and bridge at the southern end of the High Street. The medieval urban topography of the High Street, and St Mary Street leading to the parish church located a little distance to the east of the walled town, is perpetuated in the modern town plan. Mid to late 19th century development, mostly housing, lies along North Road, to the east towards St Mary's Church and on the south bank of the river across the early 18th century stone bridge. Extensive 20th century (mostly later 20th century) housing and commercial development lies further out to the north and south. Teifi valley slate is the

principal building material in the older buildings, the medieval remains of Cardigan Castle, the medieval St Mary's Church and Cardigan Bridge, and was used down to the end of the 19th century. On better quality buildings it is cut and coursed, but is uncoursed rubble on many structures. It is assumed that the cement render, common on many buildings, covers rubble. Banded Teifi valley slate in conjunction with squared, warm brown stone (Dolerite?) is used on some buildings; it is particularly noticeable on the three-storey early to mid 19th century warehouses close to the river. A couple of late 18th century buildings survive, but most stone-built domestic and commercial properties date to the early to mid 19th century. Numerous two-and three-storeyed Georgian style buildings are present (most are listed), but most, though generally in the Georgian tradition are relatively small terraced houses. Within the confines of the medieval town it is usual to find these terraces made up of buildings of different styles and dates the available space for building dictated by the medieval burgage plots. Outside the medieval town single-build terraces are more common. The 18th century brick-built Black Lion is unusual, if not unique, in southwest Wales as brick was not commonly used until the late 19th century. The opening of a brickworks at Cardigan in the late 19th century marked the decline of stone. Brick buildings are particularly evident along North Road, many displaying moulded designs and period details such as gothic and classically inspired architectural details. Some of these are listed, as are brick-built shops/commercial premises in the town centre. Cement rendering probably covers many smaller domestic brick-built buildings."



***Ffig. 8 Dyluniadau wedi'u mowldio â brics coch yn Ffordd y Gogledd / North Road***

"North Wales slate is used on roofs of stone-built and brick buildings. Early 20th century development along North Road includes several substantial, pebble dashed, detached villas with towers, turrets and red tile roofs, as well as more modest semi-detached suburban style

housing. Substantial later 20th century housing estates in a variety of styles and materials and commercial and light industrial development lie on the fringes of the historic town core. The urban character of Cardigan distinguishes it from the surrounding areas of fields and farms”. Mae'r arfarniad o Aberteifi yn nodi bod gwerth rhagorol i'r dref ac yn “a fine example of an historic town with many buildings surviving in good condition”.

## 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

### 6.1 Cyn-hanesyddol

6.1.1 Cymharol ychydig a wyddys am weithgarwch cyn-hanesyddol yn yr ardal hon. Cafwyd darganfyddiadau achlysurol o'r Oes Neolithig a'r Oes Efydd, yn enwedig ger yr aber.

6.1.2 Gwelodd yr Oes Haearn fwy o weithgarwch gyda nifer o gaeau wedi'u hamddiffyn a bryngaerau mwy yn y dirwedd o amgylch y dref.

### 6.2 Yr Oesoedd Canol

6.2.1 Sefydlwyd cymuned fynachaidd yn Llandudoch o'r 5ed ganrif yn ôl pob tebyg gan fod cerrig arysgrifenedig Cristnogol cynnar yn bodoli. Mae'n fwy sicr bod y gymuned wedi'i sefydlu erbyn yr 11eg ganrif, a sefydlodd Robert fitz Martin, Arglwydd Normanaidd Cemais briordy ar gyfer urdd fynachaidd Tironensaidd yn 1115 ar y safle.

6.2.2 Sefydlodd y Normaniaid gastell yn yr ardal am y tro cyntaf yn 1093 pan ysbeiliwyd yr ardal gan Roger de Montgomery, Iarll Amwythig, ac adeiladwyd castell pren a phridd ar lan ogleddol afon Teifi ar safle o'r enw Din Geraint. Mae'n bosibl mai hwn oedd y castell cyntaf yn Aberteifi heddiw ond mae'n fwy tebygol mai hwn oedd y gwrthgloddiau amddiffynnol sydd i'w gweld yn Old Castle Farm ychydig i lawr yr afon i'r gorllewin.

6.2.3 Bu farw Roger de Montgomery flwyddyn yn ddiweddarach a chymerwyd yr ardal yn ôl gan y Cymry brodorol.

6.2.4 Yn 1110 roedd Gilbert fitz Richard de Clare ymosodo ar y dref eto a sefydlodd gastell arall ar afon Teifi. Ymddengys fod hwn ar safle'r castell presennol a thyfodd anheddiad o'i gwmpas. Daw'r cyfeiriad cyntaf at yr anheddiad o'r adroddiadau am frwydr Crug Mawr yn 1136 lle llwyddodd y Cymry i gipio'r dref ond methu â chipio'r castell.

6.2.5 Yn y diwedd llwyddodd Rhys ap Gruffydd i gymryd y dref a'r castell yn 1165 ac ailadeiladu'r castell mewn cerrig yn 1171. Credir mai tref fach oedd yma ar yr adeg hon yn ymestyn o Fwldan Isaf i Lôn Carrier's / Carrier's Lane ac o gefn y Cei / Quayside i Lôn Eben / Ebens Lane. Er ei fod yn fach, mae'n ymddangos mai dyma oedd canolbwynt grym Rhys yn y rhan hon o Gymru. Yn 1165 rhoddodd Rhys siarter yn cadarnhau hawl y Priordy Benedictaidd bach a

sefydlwyd eisoes i'r dwyrain o'r castell. Ymddengys hefyd fod Lôn y Santes Fair / St Mary's Lane rhwng y castell a'r Priordy wedi'i datblygu erbyn hyn. Mae lleiniau o dir wedi'u nodi fel eiddo i Farchogion yr Ysbyty yn 1158, sydd ar hyn o bryd o dan The Angel Inn. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yn y dref yn 1176. Credir mai tref fach oedd yma ar yr adeg hon yn ymestyn o Fwldan Isaf i Lôn Carrier's ac o gefn y Cei i Lôn Eben, wrth edrych ar farciau Gatiau'r dref.

6.2.6 Bu farw Rhys ap Gruffydd yn 1197 a gwerthwyd y castell yn ôl i goron Lloegr yn 1199, a rhoddwyd siarteri brenhinol iddo gan ysgogi ehangu pellach.

6.2.7 Parhaodd y dref i newid dwylo yn ystod y 13eg ganrif ond parhaodd i dyfu mewn pwysigrwydd hefyd gyda nifer o siarteri pellach yn cael eu rhoi ar gyfer marchnadoedd wythnosol a ffeiriau blynyddol. Yn 1241 daeth Aberteifi unwaith eto o dan reolaeth uniongyrchol y goron Normanaidd. Yn y 1240au atgyweiriwyd y castell yn helaeth ac adeiladwyd mur gerrig y dref gyda ffos o amgylch prif ran y dref.




***Ffig. 9 Safle un o byrth canoloesol y dref ger y bont***

6.2.8 Mae arolwg tref o 1268 yn cofnodi tua 130 o fwrdeisi, East (Wolf's) Gate ar y ffordd i'r Priordy, 2 felin ac ehangu y tu allan i furiau'r dref.

6.2.9 Yn 1284 gwnaeth Edward I y castell yn ganolfan weinyddol ar gyfer Sir Aberteifi a oedd newydd ei sefydlu, a rhoddodd siarter i'r dref i gryfhau rheolaeth y bwrdeisiaid dros fasnach y dref a denu rhagor o anheddu. Mae arolwg o 1302 yn cofnodi ardal drefol gymharol ddwys.

6.2.10 Yn yr un modd â llawer o dref hwn oedd oes aur ffyniant canoloesol Aberteifi a dirywiodd y dref yn raddol hyd at y cynnydd yn y fasnach forwrol yn yr 17eg ganrif.

6.2.11 Heb os roedd rhan o'r dirywiad hwn yn rhannol o ganlyniad i'r llu o drychinebau canoloesol a darodd Cymru a'r DU dros y cyfnod hwn. Er enghraifft, yn 1349 mae'r pla du yn cyrraedd Aberteifi a dim ond saith o gartrefi wedi'u meddiannu oedd ar ôl yn y dref.

### 6.3 Y Cyfnod Ôl-ganoloesol

6.3.1 Mae map John Speed o 1610 yn rhoi'r darlun mwyaf manwl o'r dref yn y cyfnod hwn. Yn ei nodiadau mae'n sôn am gyflwr gwael y castell:

The castle is higher built upon a Rock, both spacious and fair,

had not storms impaired her beauty, and time left her carkase a very anatomy”




***Ffig. 10 Llun o Aberteifi ym map John Speed dyddiedig 1610 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)***

6.3.2 Sylwch ar nifer y llongau hwylio sy'n mordwyo'r afon Teifi ar fap Speed. Yn yr 17eg ganrif dechreuodd Aberteifi ffynnu unwaith eto oherwydd y cynnydd yn y fasnach forwrol.

6.3.3 Daeth Aberteifi yn ganolfan forwrol bwysig. Erbyn y 18fed ganrif roedd gan y porthladd awdurdodaeth dros Gasnewydd, Abergwaun, Aberaeron, Aber-porth a Chei Newydd. Bu twf cyffredinol mewn masnach megis cynnyrch amaethyddol a chalchfaen a hefyd yn y diwydiant penwaig.

6.3.4 Datblygodd ardal y Cei ac roedd wedi ehangu i lan ddeheuol yr afon yn Bridgend erbyn y 1740au. Nodir nifer o fasnachau morwrol o'r cyfnod hwn megis llwybrau rhaff, gwneuthurwyr blociau, llofftydd hwylio, warysau a ffowndrïau haearn cysylltiedig. Adeiladwyd Tŷ Customs yn Stryd y Santes Fair yn gynnar yn y 19eg ganrif.

6.3.5 Mae Samuel Lewis yn ei *Topographical Dictionary of Wales* yn disgrifio'r dref yn 1833 ac yn sôn hefyd am ei masnach forwrol broffidiol:

*"It comprises one principal thoroughfare, extending from the bridge along the turnpike-road to Aberystwith, from which another diverges to the east, in a line towards Newcastle; the former contains several respectable shops, and in both are a few good houses."*

*"The port has jurisdiction over Newport and Fishguard, in the county of Pembroke, to the west, and over Aberporth, to the north; it carries on a very considerable coasting-trade, and a limited intercourse with foreign parts. The principal exports are, corn (chiefly oats) to Bristol and Liverpool, butter, oak, bark, and slate ...The chief imports are, timber from Norway and North America, coal, principally from Liverpool, and sometimes from South Wales and Staffordshire, culm from South Wales, limestone from Pembrokeshire, and manufactured goods and merchandise for the supply of the shops ...A lucrative salmon-fishery is carried on in the river Teivy, during the summer months; and a herringfishery, which in some years is exceedingly productive, affords employment to many during the winter."*

6.3.6 Mae Lewis hefyd yn sôn am y defnydd nodweddiadol o nifer fawr o gwryglau ar yr afon yn yr haf.

6.3.7 Gyda'r cynnydd mewn masnach ac felly ffyniant y dref cafodd adeiladau dinesig a gweinyddol eu codi yn y dref. Cynlluniodd John Nash garchar newydd a adeiladwyd ar gyrion y dref yn y 1790au ac roedd Neuadd y Sir hefyd wedi cael ei hadeiladu erbyn diwedd y 18fed ganrif. Adeiladwyd neuadd farchnad ar ddiwedd Lôn y Farchnad / Market Lane tua 1822, ac roedd y dref wedi ehangu hyd at Ffordd y Gogledd. Roedd Pwllhai a Feidr Fawr yn cael eu datblygu a hefyd yr anheddiad yn Bridgend, ac roedd y Mwldan yn dod yn ganolbwynt weithgarwch diwydiannol gyda ffowndrïau haearn, tanerdy, warysau, melin a bragdai i gyd wedi'u cofnodi yn ystod y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Roedd yr ardal hon wrth ymyl y Mwldan, gerllaw Cei Cambrian, yn cynnwys nifer o lanfeydd, fel Glanfa Lloyd, a thyfodd diwydiant morwrol a datblygiadau cysylltiedig o amgylch yr ardal hon gyda gwaith adeiladu llongau yn digwydd ar draws y Mwldan yn Netpool. Mae map Speed o 1610 yn dangos bod Stryd y Cei a Lôn y Farchnad yn arwain i lawr at y Mwldan a Glanfa Lloyd/Cei Cambrian. Cafodd yr ardaloedd hyn eu dwysáu a'u moderneiddio wedi hynny drwy gydol y chwyldro diwydiannol.

6.3.8 Unwaith eto gwelwyd dirywiad yn ffyniant Aberteifi yn y 19eg ganrif wrth i'w rôl fel prif dref

weinyddol Sir Aberteifi gael ei chymryd drosodd gan Aberystwyth ac wrth i'r fasnach forwrol leihau. Fodd bynnag, roedd dyfodiad y trên yn 1885 yn golygu bod Aberteifi yn parhau i ehangu ar ddiwedd y 19eg ganrif, a thyfodd y dref ar hyd Ffordd y Gogledd a Stryd y Santes Fair gyda thai newydd yn aml yn defnyddio brics o waith brics Aberteifi a sefydlwyd yn y 1850au.

6.3.9 Yn ystod yr 20fed ganrif parhaodd Aberteifi i ehangu gyda thai newydd a stadau diwydiannol ar ei chyrion, ond diolch byth mae canol y dref wedi cadw'r rhan fwyaf o'i chymeriad a'i hadeiladau o'r 18fed a'r 19eg ganrif.



*Ffig. 11 Map John Woods dyddiedig 1834 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*

## 6.4 Mapiau Hanesyddol

6.4.1 Y map manwl cyntaf o Aberteifi yw map John Speed o 1610 (uchod). Mae'r Map Degwm o'r 1840au yn dangos maint y datblygu erbyn canol y 19eg ganrif ond dangosir mwy o fanylion ar fap John Woods o 1834.

6.4.2 Mae manylion Woods yn cynnwys perchnogion daliadau tir, nifer o gapeli ac adeiladau gweinyddol a thafarndai yn ogystal â safle'r hen dollborth ym mhen gogleddol y Stryd Fawr / High Street.




*Ffig. 12 Map yr Arolwg Ordnans 1887/8*

6.4.3 Mae map yr Arolwg Ordnans 1887/8 yn dangos ehangiad y dref ar ddiwedd y 19eg ganrif, yn enwedig ardaloedd o dai teras ar hyd Ffordd y Gogledd a datblygiadau mewnlenwi i'r dwyrain o'r Stryd Fawr. Mae gwaith brics y 1850au i'w weld yn glir yn y gornel ogledd-orllewinol. Mae'r hen farchnad wartheg ym mhen gogleddol Ffordd y Gogledd yn amlwg hefyd a oedd erbyn map AO 1905 wedi'i throi'n erddi cyhoeddus. Yn anffodus, ymddengys i garchar John Nash gael ei ddymchwel rywbryd rhwng 1834 a 1887/8.

## 7. DADANSODDIAD GOFODOL

### 7.1 Ffurf a Chynllun

7.1.1 Mae ffurf y dref ganoloesol i'w gweld o hyd yng nghynllun y strydoedd. Mae llawer o'r enwau lleoedd modern hefyd yn adlewyrchu defnyddiau tir a meysydd gweithgarwch blaenorol, gan gynnwys Stryd y Priordy, Lôn y Farchnad, Black Lion Mews a Phwllhai (gweler map John Speed a safle cae Pole Hay).

7.1.2 Mae rhannau o'r castell, elfennau o Eglwys y Santes Fair a rhannau o fur y dref wedi goroesi o'r cyfnod canoloesol.

7.1.3 Mae canol y dref yn gymysgedd dymunol o arddulliau adeiladu'r 18fed a'r 19eg ganrif gydag amrywiaeth sylweddol o ddeunyddiau a dyluniadau. Yn gyffredinol mae adeiladau yn dai teras ac yn agor yn uniongyrchol i strydoedd cymharol gul ac yn uchel gyda thri llawr gan fwyaf gan greu ymdeimlad o fod yn amgaeedig mewn llawer man.

7.1.4 Mae adeiladau cyhoeddus allweddol a dwy ardal fach agored o flaen Neuadd y Dref a Neuadd y Sir yn torri ar draws y gweithgarwch masnachol ac yn rhoi rhyddhad rhag yr hyn a allai fod yn ddwysedd datblygu gormesol fel arall. Mae sawl lôn fach a chowrt ar ongl sgwâr i'r brif stryd hefyd yn helpu i greu cyferbyniad.



*Ffig. 13 Mae lled Stryd y Bont yn creu mwy o deimlad o ehangder nag yng nghanol y dref*

7.1.5 Mae gan yr ardal ger y castell deimlad mwy agored oherwydd lled Stryd y Bont / Bridge Street a golwg agored tuag at ochr y Cei a'r afon. Wrth gwrs, mae cymeriad yr ardal hon yn cael ei ddominyddu gan y castell ei hun ar ei benrhyn creigiog, tiroedd y castell a'r gwaith ailddatblygu modern ar y safle.

7.1.6 Mae gan y rhan o Bridgend sydd wedi'i chynnwys yn yr ardal gadwraeth gymeriad mwy diwydiannol oherwydd y warysau mawr, y Cei a'r tafarndai hanesyddol.

7.1.7 Mae cymeriad masnachol prysur canol y dref yn troi'n fwy preswyl yn gyflym ar gyrion y dref wrth i chi symud i ffwrdd o'r Stryd Fawr. Ar y cyfan mae adeiladau ar gyrion dref yn ddeulawr er eu bod yn aml yn dal yn dai teras. Mae hyn yn amlwg yn rhan ogleddol Ffordd y Gogledd, ar hyd Teras y Frenhines / Queen's Terrace a'r ardal tuag at Eglwys y Santes Fair.

7.1.8 Mae hefyd enghreifftiau o ddatblygiadau diwydiannol a masnachol modern ar raddfa ganolig/ fawr o ansawdd gwael mewn pocedi ar gyrion y dref yn ogystal ag estyniadau cefn a datblygiadau iard gefn sydd wedi'u dylunio'n wael. Ceir enghreifftiau arbennig o'r rhain ar Stryd Morgan, Sgwâr Greenfield, Lôn Chancery ger Sgwâr Finch, Mwldan Isaf a rhannau o'r Strand. Mae rhai o'r rhain ychydig y tu allan i'r ffin ddynodedig ond serch hynny yn effeithio ar leoliad yr ardal gadwraeth.

7.1.9 Mae ffordd osgoi'r A487 i bob pwrpas wedi cael gwared ar y rhan fwyaf o'r traffig trwm o ganol y dref ac mae ei chymeriad prysur yn cael ei greu gan geir, siopwyr a thwristiaid.

## 7.2 Ffiniau

7.2.1 Mae'r dref yn gnewyllol ac wedi'i hamgylchynu gan gaeau a mannau agored i'r gorllewin, gogledd a dwyrain gydag afon Teifi yn creu ffin ffug i'r de ond sydd, serch hynny, yn nodwedd bwysig o'r dref a'i *raison d'etre*.

7.2.2 Mae datblygiadau tai newydd wedi'u lleoli'n bennaf ar gyrion y dref ac nid ydynt yn effeithio fawr ddim ar gymeriad hanesyddol yr ardal ddynodedig.

7.2.3 O fewn y dref hanesyddol mae digon o waliau cerrig hanesyddol uchel, rhai waliau brics cynharach a rhai ffiniau modern iawn o ddeunyddiau anghydnaws. Er gwaethaf natur drefol y dref mae hefyd enghreifftiau o wrychoedd a phocedi o goed.

7.2.4 Mae gan y tai teras o ddiwedd Oes Fictoria ar ochr ogleddol Ffordd y Gogledd erddi blaen bach nodweddiadol, wedi'u hamgáu'n bennaf gan waliau brics bach gyda rheiliau haearn.

### 7.3 Golygfeydd a Ffyrdd Dynesu

7.3.1 Mae golygfeydd y ddwy ffordd ar draws Pont Aberteifi yn bwysig, yn enwedig o'r castell, yn ogystal â golygfeydd ar hyd afon Teifi.

7.3.2 Mae golygfeydd o'r Parc a'r Ardd Hanesyddol Cofrestredig yn y castell i'r de a'r de-ddwyrain wedi'u nodi fel rhai pwysig, fel y dangosir ar y map isod.




*Ffig. 14 Golygfeydd pwysig wedi'u nodi (saethau du) o dir y castell (© Hawlfraint y Goron (Cadw), 2021)*

7.3.3 Mae'r Stryd Fawr yn gwyro'n raddol ac mae'r golygfeydd yn cael eu cyfyngu gan ffurf adeiledig a natur serpentaidd y ffordd.

7.3.4 Mae golygfeydd byr o adeiladau pwysig megis y castell, Neuadd y Dref, Neuadd y Sir, The Angel Hotel, Eglwys y Santes Fair ac eraill wedi cael eu cynnal trwy gadw mannau agored cyhoeddus bach.



*Ffig. 15 Golygfa o dŵr Eglwys y Santes Fair o ben uchaf Stryd y Santes Fair*

7.3.5 Mae'r olygfa linellol ar hyd Ffordd y Gogledd yn pwysleisio'r eiddo teras a rheoleidd-dra eu graddfa a'u cymesuredd.

7.3.6 O sawl man gellir gweld neu weld cipolwg o dŵr Eglwys y Santes Fair; mae'n nodwedd bwysig o'r A487 ac o'r holl ffordd ar hyd Stryd y Priordy a rhannau o Stryd y Santes Fair.

## 7.4 Mannau Agored a Gwyrdd

7.4.1 Er gwaethaf dwysedd y datblygu yn Aberteifi, o fewn y ffin ac yn gyfagos i'r ffin mae nifer o fannau agored megis gerddi trefol preifat, meysydd parcio preifat bach, meysydd parcio cyhoeddus mwy, gerddi o amgylch capeli, sgwariau cyhoeddus (megis Sgwâr Finch, Sgwâr Stryd Morgan a Sgwâr Greenfields), y ddwy ardal fach lle mae'r ffordd yn lledu y tu allan i Neuadd y Sir a Neuadd y Dref, gerddi cyhoeddus ar ben uchaf Ffordd y Gogledd, man perfformio'r Cei, tiroedd Eglwys y Santes Fair, gerddi'r castell, a Gwarchodfa Natur Coed y Mwldan i'r gorllewin.

7.4.2 Mae lledu palmentydd wedi digwydd mewn rhai mannau ar hyd y Stryd Fawr gan greu lle ar gyfer diwylliant caffi palmant sy'n ychwanegu bywiogrwydd i'r strydlun. Yn anffodus, mae tarmac a bolardiau plastig wedi cael eu defnyddio yn lle rhai tebyg i'r bolardiau metel a'r slabiau palmant presennol, ond gellid gwella hyn yn y dyfodol.

7.4.3 Mae'r mannau agored hyn yn bwysig i gymeriad yr ardal gan eu bod yn darparu rhyddhad o'r strydoedd cul a'r adeiladau uchel a allai fod yn ormesol fel arall.




*Ffig. 16 Diwylliant caffi ar ddiwrnod heulog ar y Stryd Fawr*

# 8. CYMERIAD PENSAERNÏOL

## 8.1 Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

8.1.1 Mae olion canoloesol Aberteifi wedi'u hadeiladu o gerrig ac mae iddynt gymeriad amddiffynnol cadarn nodedig. Ymhlith yr olion hyn mae'r castell, rhannau o fur y dref, rhannau o Eglwys y Santes Fair a Phont Aberteifi.

8.1.2 Defnyddiwyd carreg ymhell i'r 18fed a'r 19eg ganrif ac fe'i gwelir trwy ganol y dref, mewn pensaernïaeth ffurfiol ac mewn bythynnod cerrig o arddull werinol llai o faint. Defnyddir carreg galch las fel arfer.

8.1.3 Mae llawer o'r adeiladau o'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif yn y dref yn adeiladau cerrig wedi'u rendro.

8.1.4 Yn anaml y defnyddid brics nes dyfodiad y rheilffordd ac agor gwaith brics Aberteifi ar ddiwedd y 19eg ganrif. Fodd bynnag, ceir dwy enghraifft gynnar o adeiladau brics – The Black Lion Hotel (diwedd y 18fed ganrif) a rhes fer o bedwar (o bosibl chwech) bwthyn teras bach ar Ffordd y Gogledd, y rhan fwyaf ohonynt yn dal i ddangos y brics wedi'u gwneud â llaw mwy o faint o'r 18fed ganrif.



*Ffig. 17 Bythynnod ar Ffordd y Gogledd wedi'u hadeiladu o frics mawr wedi'u gwneud â llaw*

8.1.5 Defnyddiwyd rhai adeiladau yn y dref i arddangos arbenigedd y gwaith brics. Ceir llawer o enghreifftiau o frics wedi'u mowldio mewn arddulliau cywrain, sy'n helpu i ddyddio'r adeiladau hyn i ddiwedd y 19eg ganrif. Mae Teras y Priordy yn grŵp o bum tŷ wedi'u hadeiladu a'u dylunio yn ôl pob tebyg gan William ap Woodward, adeiladwr a pherchennog gwaith brics Aberteifi. Maent yn cynnwys yr enghreifftiau mwyaf uchelgeisiol ac addurniadol o bosib o'i waith (gweler Ffigur 8).



*Ffig. 18 Drws Sioraidd Fictoraidd clasurol*



*Ffig. 19 Ffenestr godi Sioraidd mewn ffasâd Gothig Fictoraidd*



*Ffig. 20 Ailfodelu nodweddiadol o dy tref o ddiwedd y cyfnod Sioraidd*

8.1.6 O fewn canol y dref fasnachol mae llawer o wahanol arddulliau o bensaernïaeth, nodweddion a deunyddiau, yn aml yn addurnol iawn ac yn ychwanegu amrywiaeth pictiwrésg at olwg y dref.




*Ffig. 21 Neuadd y Dref / The Guild Hall gan RJ Withers yn arddull Gothig Ruskin*

8.1.7 Mae'r manylion pensaernïol yng nghanol y dref yn dangos cymysgedd o arddulliau Sioraidd a Fictoraidd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yma yn dyddio o'r cyfnod Sioraidd

ond mae llawer wedi cael eu hailfodelu yn y cyfnod Fictoraidd gan ychwanegu ffasadau newydd, ffenestri codi, ffenestri bae ac ati. Felly mae manylion pensaernïol yn gymysgedd diddorol o arddull Sioraidd glasurol, ailfodelu Fictoraidd o nodweddion Sioraidd, a manylion Fictoraidd nodweddiadol.



*Ffig. 22 Teils faience yn 20 Pendre*




*Ffig. 23 Gwaith brics wedi'i fowldio yn Aberteifi o ddiwedd y 19eg ganrif*

8.1.8 Mae pensaernïaeth Fictoraidd yn amrywiol iawn gydag enghreifftiau o arddulliau pensaernïol gwahanol sy'n dangos dylanwad y penseiri, adeiladwyr a ffasiynau gwahanol oedd yn boblogaidd ar y pryd.



*Ffig. 24 Ffenestr oriel Fictoraidd*



*Ffig. 25 Ffenestr oriel Edwardaidd / dechrau'r 20fed ganrif*

8.1.9 Mae ffenestri codi Sioraidd a Fictoraidd yn nodweddion cyffredin mewn ffurfiau amrywiol. Mae conglfeini ac architrafau ffenestri wedi'u rendro hefyd i'w gweld ynghyd â phennau ffenestri addurniadol, yn aml mewn brics. Mae ffenestri bae hefyd yn gyffredin – rhai ar ffurf oriel, yn enwedig uwchben siopau, ac mae'r arddull hon yn parhau i'r cyfnod Edwardaidd / dechrau'r 20fed ganrif.



*Ffig. 26 Mae cyrn simnai mawr yn torri ar draws y nenlinell*

8.1.9 Mae ffenestri codi Sioraidd a Fictoraidd yn nodweddion cyffredin mewn ffurfiau amrywiol. Mae conglfeini ac architrafau ffenestri wedi'u rendro hefyd i'w gweld ynghyd â phennau ffenestri addurniadol, yn aml mewn brics. Mae ffenestri bae hefyd yn gyffredin – rhai ar ffurf oriel, yn enwedig uwchben siopau, ac mae'r arddull hon yn parhau i'r cyfnod Edwardaidd / dechrau'r 20fed ganrif.



*Ffig. 27 Rheiliau haearn hanesyddol*



*Ffig. 28 Lamp stryd o ansawdd da*



*Ffig. 29 Hopran haearn wreiddiol gyda pheipen law fodern newydd o ansawdd uchel*

8.1.10 Mae simneiau sylweddol wedi goroesi mewn sawl man wedi'u gwneud o frics yn bennaf ond mae rhai cerrig hefyd gyda photiau simnai clai syml.

8.1.11 Mae nifer o ddrysau paneli gwreiddiol wedi goroesi o fewn yr ardal gadwraeth, rhai gyda ffenestri linter a chasinau drysau gwreiddiol. Ond wrth gwrs bu llawer o newidiadau modern, yn aml mewn dyluniadau amhriodol yn enwedig ar yr anheddau domestig mwy crefftus.

## 8.2 Dodrefn Stryd a Blaenau Siopau

8.2.1 Mae gwaith haearn yn y strydlun yn cynnwys rhai darnau hanesyddol gwreiddiol a rhai newidiadau / ychwanegiadau modern o ansawdd da yn ogystal â chyflwyniadau modern o'r ansawdd gwael arferol. Mae nwyddau dŵr glaw, rheiliau, goleuadau stryd, bolardiau,

nodweddion pensaernïol addurniadol i gyd yn ychwanegu at gymeriad cyffredinol yr ardal lle maent o ansawdd da gyda dyluniad a deunyddiau addas.




*Ffig. 30 Mae amrywiaeth o flaenau siopau hanesyddol yn ychwanegu at ansawdd y strydlun*





*Ffigurau 31 a 32 Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar rai blaenau siopau*

8.2.2 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ardaloedd cadwraeth eraill yng Ngheredigion, bu dewis gwael o oleuadau stryd yn gyffredinol ac mae'n cael effaith negyddol ar gymeriad hanesyddol yr ardal.

8.2.3 Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o flaenau siopau yn rhai modern newydd o ddyluniadau hanesyddol, a dim ond rhai sy'n wreiddiol. Mae'n debyg bod y rhain yn dyddio'n bennaf o gynllun grant 'Menter Treftadaeth Treflun' yn negawd cyntaf yr 21ain ganrif. Maent wedi gwella golwg cyffredinol canol y dref yn sylweddol ond mewn llawer man maent yn dechrau dioddef o ddiffyg cynnal a chadw.

8.2.4 Mae cymesuredd anghydnaws ffasgia siopau modern gyda deunyddiau a dyluniadau anaddas i'w gweld wrth gwrs, ond maent yn y lleiafrif diolch byth.

*Ffig. 33 Map o'r asedau hanesyddol dynodedig yn Aberteifi*



8.2.5 Mae arwyddion crog i'w gweld yn aml hefyd mewn arddulliau hanesyddol a dehongliadau modern ond yn gyffredinol gyda chymesuredd ac arddull priodol.

## 9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

### 9.1 Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig

9.1.1 Mae tair heneb gofrestredig o fewn yr ardal gadwraeth: Castell Aberteifi (Cadw Cyf.: CD123); Pont Aberteifi (Cadw Cyf.: CD003); a Muriau Tref Aberteifi (Cadw Cyf.: CD141). Dangosir y rhain ar y map isod.

9.1.2 O fewn Ardal Gadwraeth Aberteifi mae 92 o Adeiladau Rhestredig: 1 Gradd I (Castell Aberteifi), 9 Gradd II* (Castle Green House, Neuadd y Dref a Marchnadoedd, Neuadd y Sir, Pont Aberteifi, Eglwys Blwyf y Santes Fair, Capel y Bedyddwyr Bethania, rheiliau, gatiau a phileri yng Nghapel y Bedyddwyr Bethania, Rhif 7 Stryd y Santes Fair, a 40 Stryd y Santes Fair) ac 82 yn Radd II.Mae enghraifft dda o resi o derasau hanesyddol i'w gweld ar hyd Stryd y Cei sy'n cynnwys 16 o adeiladau rhestredig gradd II. Mae'r rhain yn dyddio'n bennaf o'r 19eg ganrif gynnar, canol a diwedd y 19eg ganrif gan ddarparu gwerth grŵp hanesyddol. Ym 1871 roedd Stryd y Cei yn gartref i'r Banc Taleithiol Cenedlaethol ac yna siop ddillad gyferbyn â Manchester House.



*Ffig. 34 Castle Green House a'i ardd sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn hyn fel atyniad poblogaidd i dwristiaid*

### 9.2 Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig

9.2.1 Fel y dangosir ar y map ar dudalen 20, mae tiroedd Castell Aberteifi yn Barc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig. Maent wedi'u dynodi yn rhai Gradd II fel gardd bleser a gardd gegin gyda'r prif gyfnodau adeiladu yn dyddio o 1713, tua 1808, 1827-30 a 1924-39.

9.2.2 Crëwyd y gerddi i ddarparu lleoliad rhamantus ar gyfer Castle Green House ac mae'r rhan fwyaf o'r strwythur a pheth o'r plannu, sef gardd ddiddorol ac anarferol o gyfnod y Rhaglywiaeth, o fewn ward y castell canoloesol, wedi goroesi.

9.2.3 Adeiladwyd y tŷ fel cartref mawreddog â phob cyfleuster oedd yn gofyn am leoliad deniadol a phriodol gyda gerddi ffasiynol, mynedfa drawiadol, dreifiau, cerbyty a stablau. Addaswyd ward y castell a'r ardal gyfagos i ddarparu'r holl nodweddion hyn.

9.2.4 Aeth y lle cyfan yn adfail yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn 2003 prynwyd y castell, gan gynnwys y tŷ, gan Gyngor Sir Ceredigion. Ers 2011 mae rhaglen atgyweirio ac adfer gynhwysfawr wedi digwydd ac mae'r safle ar agor i'r cyhoedd erbyn hyn.

### 9.3 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

9.3.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb lleol – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler [https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest](https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest)), a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

9.3.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisïau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

9.3.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun,

fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.

9.3.4 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol o fewn Ardal Gadwraeth Aberteifi wedi'u rhestru ond mae rhai adeiladau heb eu rhestru y dylid eu hystyried i'w cynnwys ar 'restr leol'.

9.3.5 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae aelodau o'r gymuned leol wedi gwirfoddoli i gynnal arolwg o adeiladau y gellid eu cynnwys ar 'restr leol'. Mae cyfarfodydd cychwynnol eisoes wedi cael eu cynnal.

## 10. CYMDEITHASAU HANESYDDOL

### 10.1 Pobl

10.1.1 Mae lle amlwg Castell Aberteifi mewn hanes yn golygu bod llawer o ffigurau hanesyddol wedi cael effaith ar ddatblygiad y dref, gan gynnwys:

- **Gilbert fitz Richard de Clare**, barwn Eingl-Normanaidd pwerus a gafodd Arglwyddiaeth Aberteifi ar ôl llwyddo i'w chipio oddi wrth y Cymry lleol ar ddechrau'r 12fed ganrif. Ef oedd y cyntaf i sefydlu castell ar y safle presennol, tua 1110, a thyfodd yr anheddiad canoloesol o'i gwmpas.

- **Robert fitz Martin**, Norman ac Arglwydd cyntaf Cemaes. Ganed Robert ar ddiwedd yr 11eg ganrif ac etifeddodd Robert eiddo yng Ngwlad yr Haf, Dorset a Dyfnaint. Bu'n rhan o'r goresgyniadau'r Normaniaid yng Nghymru, a thrwy hynny cafodd farwniaeth Cemais, a leolir rhwng Abergwaun ac Aberteifi. Priododd Maud Peverell, a gyda'i gilydd fe sefydlon nhw Abaty Llandudoch, Aberteifi, rhwng 1115 a 1119. Llwyddodd Robert fitz Martin i amddiffyn a dal castell Aberteifi yn erbyn y Cymry yn ystod Gwrthryfel Mawr 1136-1137.



*Ffig. 35 'Carreg yr Eisteddfod' a'r plac y tu allan i Gastell Aberteifi sy'n coffau'r Eisteddfod gyntaf*

- Yn 1166 cipiwyd y castell gan **Rhys ap Gruffydd** ac fe ailadeiladodd y castell mewn cerrig yn 1171 ac i ddathlu hyn cynhaliodd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yma yn 1176. Rhoddodd siarter i'r priordy presennol i'r dwyrain o'r dref yn cadarnhau ei hawliau.
- Atgyfnerthwyd y castell yn 1240 gan **Walter Marshall** a chafodd ei ailadeiladu yn 1244 gan Robert Waleran, un o farchogion gosgordd Harri III, ar ran y Brenin.
- Yn 1284 gwnaeth **Edward I** y castell yn ganolfan weinyddol ar gyfer Sir Aberteifi a oedd newydd ei sefydlu, a rhoddodd siarter i'r dref i gryfhau rheolaeth y bwrdeisiaid dros fasnach y dref a denu rhagor o anheddu. Mae arolwg o 1302 yn cofnodi ardal drefol gymharol ddwys.




***Ffig. 36 The Castle Inn yn Bridgend, eiddo y pensaer o Aberteifi, Daniel Evans a oedd wedi'i ddylunio hefyd o bosib***

10.1.2 Mae gan nifer o benseiri hanesyddol amlwg gysylltiadau ag Aberteifi:

- Mae'n bosibl bod y pensaer neoglasurol enwog, **John Nash**, wedi'i eni yn Aberteifi ac wedi dylunio carchar y sir (sydd bellach wedi'i ddymchwel) a Thŷ'r Priordy / Priory House y tu ôl i'r eglwys ar dir y Priordy Benedictaidd.

- Cynlluniwyd Neuadd y Dref (1858-60), sef yr hen Gyfnewidfa Ŷd a fu hefyd yn gartref i'r Ysgol Ramadeg, yr ystafell newyddion, y marchnadoedd a'r lladd-dy, gan **RJ Withers**, pensaer eglwysig o Loegr. Sefydlodd Withers bractis mawr yng Ngorllewin Cymru ond mae'n fwyaf adnabyddus am ei eglwysi gwledig.
- Cynlluniwyd Capel y Bedyddwyr Mount Zion yn Stryd y Priordy (1878-80) gan **George Morgan** o Gaerfyrddin, un o benseiri capeli enwocaf Cymru. Fe'i hadeiladwyd gan W Woodward o Aberteifi gyda brics o'i waith brics lleol ei hun.
- Cynlluniwyd Capel y Bedyddwyr Bethania (1846-7) gan **Daniel Evans**, pensaer o Aberteifi. Mae'n bosibl iddo hefyd ddylunio Tŷ Customs yn Stryd y Santes Fair. Roedd yn berchen ar y Castle Inn yn Bridgend a leolir dros Bont Aberteifi, ac mae'n bosibl ei fod wedi'i gynllunio hefyd, a bu farw yno yn 1852.

## 10.2 Traddodiadau

10.2.1 Mae gan y rhan fwyaf o drefi marchnad ffair logi draddodiadol ac nid yw Aberteifi yn eithriad yn hyn o beth heblaw bod ganddi ddwy. Dywedir bod diwedd arferol y ffair logi amaethyddol (ym mis Tachwedd yn Aberteifi) wedi cael ei chynnal yn y dref ers 1302. Mae hyn yn dal i ddigwydd yn flynyddol ond heddiw mae'n fwy o ffair bleser na ffair logi. Yr ail ffair draddodiadol yn Aberteifi yw Ffair Sadwrn Barlys y dywedir iddi gael ei chynnal ers dechrau'r 19eg ganrif ar ddydd Sadwrn olaf mis Ebrill. Roedd hi'n nodi hanner blwyddyn o logi gweision fferm ac yn dathlu diwedd y tymor hau, a barlys oedd y grawnfwyd olaf i'w hau. Roedd hefyd yn ffair geffylau lle deuai ffermwyr i archwilio meirch oedd i'w rhoi allan i fridio. Yn ystod y ffair heddiw, ymhlith digwyddiadau eraill, cynhelir gorymdaith o feirch o hyd drwy'r dref.



***Ffig. 37 Y 'Cloc Wisgi' ar ben Neuadd y Dref***

10.2.2 Dywedir i'r canon 'Rwsiaidd', neu'r Canon Balaclafa, o flaen Neuadd y Dref gael ei gipio yn ystod y frwydr enwog The Battle of the Light Brigade a'i gyflwyno i'r dref yn 1857 er cof am aberth milwyr Aberteifi yn Rhyfel y Crimea.

10.2.3 Ychwanegiad diweddarach yw tŵr y cloc ar ben Neuadd y Dref ac fe'i adwaenir yn lleol fel y 'Cloc Wisgi' gan iddo gael ei gyflwyno i'r dref gan David Davies, masnachwr gwin a gwirodydd lleol pan oedd yn Faer yn 1890. Cafodd ei oleuo'n wreiddiol gan olau nwy ac mae ganddo bedwar wyneb cloc haearn, pob un yn bedair troedfedd o led, gyda bysedd copr a gwydr afloyw. Ar ei ben mae ceiliog y tywydd gyda'r llong a'r castell o sêl y dref.

10.2.4 Efallai fod y 'traddodiad' pwysicaf yn deillio o gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf erioed yn 1176 gan yr Arglwydd Rhys yng Nghastell Aberteifi. Cynhaliodd ddwy gystadleuaeth fawr yn y castell, un ar gyfer barddoniaeth a'r llall ar gyfer cerddoriaeth. Y wobr oedd cadair wrth fwrdd yr Arglwydd Rhys ar gyfer y wledd gyda'r hwyr, ac mae 'cadeiriau' yn dal i gael eu rhoi hyd heddiw. Cynhaliwyd cystadlaethau tebyg yn y 15fed a'r 16eg ganrif a bathwyd y term 'eisteddfod' yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dirywio wnaeth y cynulliadau hyn yn ystod teyrnasiad Harri VIII nes i gymdeithasau Cymraeg Llundain adfywio'r traddodiad ar ddiwedd y 18fed ganrif.

## 11. HANESION CUDD

### 11.1 Potensial Archeolegol

11.1.1 Yn 2007 cynhyrchodd Cambria Archaeology (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed) arolwg o dref hanesyddol Aberteifi. Comisiynwyd yr arolwg i gasglu gwybodaeth ar gyfer y rhaglen Menter Treftadaeth Treflun. Mae'n nodi hanes a datblygiad cymeriad hanesyddol trefol presennol y dref ac yn nodi potensial archeolegol yr ardal. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen hon yn hynod berthnasol a dylid ei defnyddio i lywio penderfyniadau a blaengynllunio ar gyfer twf a datblygiad Aberteifi.

11.1.2 Mae'r arolwg tref yn ddogfen fawr a manwl ac nid oes modd ei hatgynhyrchu yma. Dylid cyfeirio ato'n uniongyrchol i gael dadansoddiad manwl o botensial archeolegol ardaloedd penodol.

11.1.3 Bu ychydig o gloddiadau archeolegol ar raddfa fach yn yr ardal gadwraeth yn ogystal â gwaith cofnodi adeiladau, cofnodion ffotograffig, arolygon bwrdd gwaith a briffiau gwylio. Mae'r rhain wedi cynnwys nifer o gloddiadau yn y castell ei hun sydd wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol o adeileddau canoloesol claddedig. Mae cloddiadau achub yng nghanol y dref ganoloesol wedi darganfod adeileddau, arwynebau, crochenwaith a dyddodion yn dyddio'n ôl i'r cyfnod canoloesol. Darganfuwyd olion claddedig y datblygiad ôl-ganoloesol diweddarach ar hyd Stryd y Bont.

11.1.4 Mae adroddiad yr arolwg tref yn dod i'r casgliad “these investigations do clearly illustrate that there is a survival of both buried deposits and upstanding buildings which date from the earliest phases of Cardigan's development to its recent past. These archaeological remains have the potential to reveal a wealth of knowledge about the life and society of the people of Cardigan throughout its long history. This understanding is not only important at a local level, but also at a regional and national level”.

11.1.5 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ac yn disgrifio chwe pharth cynllunio gwahanol, gan amlygu potensial archeolegol disgwyliedig yr ardaloedd hyn. Mae'r rhain yn awgrymu'r math o weddillion ffisegol y gellir eu disgwyl a hefyd sut y gallai datblygiad hanesyddol fod wedi effeithio ar yr olion hyn ac ym mha gyflwr y gallent fod wedi'u cadw. Mae hefyd yn nodi amcanion ymchwil archeolegol ar gyfer pob ardal.

## 12. BIOAMRYWIAETH

### 12.1 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)

12.1.1 Mae afon Teifi wedi cael ei dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA). Mae afon Teifi yn ddalgylch mawr o werth cadwraeth uchel. Y prif resymau dros ddewis y safle hwn yw'r nodweddion canlynol a phresenoldeb y rhywogaethau canlynol:

- Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a Callitricho-Batrachion
- Rhywogaethau: Lamprai'r nant *Lampetra planeri*
- Rhywogaethau: Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis*
- Rhywogaethau: Eog yr Iwerydd *Salmo salar*
- Rhywogaethau: Crothell *Cottus gobio*
- Rhywogaethau: Dyfrgi *Lutra lutra*
- Rhywogaethau: Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*

### 12.2 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)

12.2.1 Mae'r arfordir ar hyd yr ardal hon hefyd wedi'i ddynodi'n SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan am resymau daearegol, geomorffolegol a biolegol. Mae'r dolffin trwynbwl a'r morlo llwyd o ddiddordeb arbennig. Mae traethau diarffordd ac ogofâu môr yn darparu mannau geni ar gyfer morloi llwyd. Mae'r draethlin, sy'n cynnwys riffiau, pyllau glan môr, clogfeini, cobl agored, graean a thywod yn cynnal ystod o gymunedau rhynglanwol pwysig, gan gynnwys enghreifftiau gwych o riffiau llyngyr diliau. Mae'r cramenogion Pectenogammarus planicrurus, sy'n brin yn genedlaethol ac sy'n nodweddiadol o lannau graean glân, i'w gweld yma. Mae'r

***Ffig. 38 Map yn dangos maint y SoDdGA a'r ACA yn Aberteifi***



clogwyni môr yn darparu clwydi a safleoedd nythu ar gyfer poblogaethau cenedlaethol o'r frân goesgoch, y wylan goesddu a'r wylan gefnddu leiaf. Mae cynefinoedd o ddiddordeb arbennig sy'n gysylltiedig â'r clogwyni a'r llethrau arfordirol yn cynnwys llystyfiant holltau a silffoedd clogwyni, glaswelltir glan môr a rhostir arfordirol sy'n cynnal nifer fawr o rywogaethau o blanhigion sy'n brin yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys lafant y môr, gromil cyffredin a chlust y gath. Mae'r glöyn byw brith perlog prin a'r glas bychan, sy'n brin yn rhanbarthol, yn rhan o gymuned bwysig o infertebratau.

### 12.3 Coed

12.3.1 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Fel y trafodwyd uchod mae'n dangos bod lefel dda o orchudd coed yn y dref sy'n cyfrannu at ei chymeriad.

12.3.2 Mae'r map hefyd yn dangos bod yna gryn dipyn o orchudd coed sy'n cyfrannu at leoliad yr ardal gadwraeth.



***Ffigurau 39 a 40 Mae gorchudd coed yn nodwedd bwysig o leoliad yr ardal gadwraeth ac yn gwella lleoliad adeiladau unigol***



*Ffig. 41 MapDataCymru (data 2018) yn dangos y gorchudd coed yn Aberteifi*



***Ffig. 42 Map yn dangos Gorchmynion Cadw Coed a Choetir Hynafol***



## 13 MATERION – DADANSODDIAD CGCB

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| Arwyddocâd hanesyddol pwysig iawn<br><br>Tystiolaeth weladwy o gastell a thref ganoloesol<br><br>Pensaernïaeth ôl-ganoloesol o ansawdd da<br><br>Nodweddion pensaernïol wedi goroesi'n dda yng nghanol y brif dref<br><br>Mannau agored, lonydd cefn a sgwariau yn rhydd-had o adeiladau uchel a strydoedd cul<br><br>Menter Treftadaeth Treflun / cynlluniau adfywio llwyddiannus<br><br>Cyrchfan poblogaidd i dwristiaid<br><br>Diwylliant caffi poblogaidd<br><br>Ddim llawer o adeiladau 'problemus' neu wag<br><br>Bioamrywiaeth yr arfordir<br><br>Y ffordd fawr yn osgoi canol y dref<br><br>Gorchudd coed da<br><br>Cymuned leol gefnogol a gweithgar | Colli nodweddion gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig y tu allan i ganol y brif dref<br><br>Ychydig o ffasgia siopau o ansawdd gwael<br><br>Lledu'r palmant gyda tharmac wedi digwydd yn ddiweddar<br><br>Newid nodweddion terfyn traddodiadol a rhoi deunyddiau anhraddodiadol yn eu lle<br><br>Gwaith cynnal a chadw wedi crynhoi ychydig – dibynnu ar gyllid allanol ar gyfer cynnal a chadw arferol<br><br>Colli adeiladau arwyddocaol yn y gorffennol (e.e. gwaith John Nash)<br><br>Dibyniaeth ar dwristiaeth<br><br>Diffyg gweithgareddau gyda'r hwyr |

| CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|
| Posibiliadau archeolegol<br><br>Newid goleuadau stryd modern<br><br>Gwella palmentydd tarmac<br><br>Diogelu neu ddisodli nodweddion pensaernïol gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig<br><br>Gwella ardaloedd y tu allan i ganol y brif dref<br><br>Gwella'r Cei hanesyddol, ei leoliad a'i 'gysylltiad' â'r dref<br><br>Plannu coed | Datblygiad ac estyniadau newydd amhriodol, yn enwedig rhai masnachol/diwydiannol ychydig y tu allan i ganol y dref<br><br>Colli manylion a nodweddion pensaernïol gwreiddiol<br><br>Colli gorchudd coed<br><br>Colli mannau agored i ddatblygiadau<br><br>Erydiad cymeriad hanesyddol trwy ymyriadau modern, yn enwedig o ran siopau<br><br>Colli twristiaeth |




# ABERTEIFI

# Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Mehefin 2025

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau a'r ymgynghoriadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

# 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

## 2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLl yn dilyn ymgynghoriad;
- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLl.




***Ffig. 43 Mae simneiau yn nodwedd bwysig o'r nenlinell yng nghanol tref Aberteifi ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt ar dai annedd sengl***

## 2.2 Aberteifi

2.2.1 Mae gan Ardal Gadwraeth Aberteifi Gyfarwyddyd Erthygl 4 (2) a gafodd ei weithredu yn 2001/2002 ac sy'n cwmpasu'r holl ardal gadwraeth bresennol. Mae'n berthnasol i dai annedd ac i ddrychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd, ac mae'n cwmpasu'r ardaloedd canlynol o ddatblygiadau a ganiateir:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ehangu tŷ annedd sy'n cynnwys ychwanegiad neu addasiad i'w do
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth E: Darparu unrhyw adeilad neu glostir, pwll nofio neu bwll arall, neu gynnal a chadw, gwella neu newid arall i adeilad neu amgaead o'r fath.
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth F: Darparu neu amnewid arwyneb caled
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth H: Gosod, newid neu amnewid antena lloeren
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn

2.2.2 Mae simneiau wedi eu hadnabod fel nodwedd bwysig o fewn Ardal Gadwraeth Aberteifi, yn enwedig y simneiau mawr iawn yng nghanol y dref. Mae Atodlen 2, Rhan 1, Dosbarth G yn ymdrin â'u newid, eu codi, eu rendro neu eu symud. Mae hyn yn berthnasol i dai annedd sengl yn unig. Nid oes gan dai amlfeddiannaeth, fflatiau ac adeiladau masnachol yr hawliau datblygu a ganiateir hyn.

## 2.3 Argymhelliad

2.3.1 Nid yw'r mwyafrif helaeth o simneiau pwysig ar dai annedd sengl, felly cyfyngedig byddai unrhyw fudd a ddaw trwy ymestyn y Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) presennol i ddileu'r hawl datblygu a ganiateir hwn.

2.3.2 Sicrhau bod perchnogion, meddianwyr a staff cynllunio yn ymwybodol o'r Erthygl 4(2) bresennol a'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir.

# 3. ADOLYGIAD FFIN

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mewn rhai achosion mae ffiniau tir wedi newid neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

## 3.2 Aberteifi

3.2.1 Estynnwyd ffin ardal gadwraeth Aberteifi yn 2001.

3.2.2 Roedd estyniadau 2001 yn cydnabod yn rhannol gyfraniad datblygiad Fictoraidd y dref, yn enwedig i'r gogledd. Fodd bynnag, mae'n dod i ben rhan o'r ffordd ar hyd Ffordd y Gogledd ac

***Ffig. 44 Map yn dangos y dynodiad gwreiddiol yn 1969 a'r estyniad i'r ffin yn 2001***



nid yw'n cynnwys cyfnodau datblygu diweddarach Oes Fictoria sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r hen dollborth.

3.2.3 Ar ben uchaf Ffordd y Gogledd mae cyfres o filas yn dyddio o ddiwedd Oes Fictoria, ac mae manylion pensaernïol o ansawdd uchel gan lawer ohonynt. Adeiladwyd y gyfres i'r gogledd o Barc Victoria yn 1900 yn ôl y plac ar y tŷ olaf. Mae hyn yn cynrychioli cyfnodau datblygu diweddarach Oes Fictoria yn y dref.



***Ffig. 45 Manylion pensaernïol o ansawdd uchel***




***Ffig. 46 Dyddiad adeiladu 1900***




*Ffig. 47 Map Degwm 1846*

3.2.4 Yn yr ardal hon hefyd mae Gerddi Victoria, parc cyhoeddus, a gynlluniwyd yn 1897 i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines Fictoria. Mae'n barc trionglog sy'n cynnwys bandstand rhestredig Gradd II a gwelyau blodau a chofeb rhyfel senotaff sydd hefyd yn Rhestredig Gradd II.

3.2.5 Enw arall ar y parc yw Pwll Pensarnau ac fe'i dangosir ar y mapiau hanesyddol fel marchnad wartheg ar fap Arolwg Ordnans 1887/8 ac yn wir fel 'pwll' ar y Map Degwm.

## 3.3. Argymhelliad

3.3.1 Argymhellir gwneud estyniad bach i Ardal Gadwraeth Aberteifi i gynnwys Gerddi Victoria, y ddau adeiledd rhestredig sef y bandstand a'r gofeb rhyfel, a'r rhes o filas o ansawdd uchel ar ochr ogleddol y ffordd (46 i 74 Ffordd y Gogledd).

*Ffig. 48 Gerddi Victoria*



*Ffig. 49 Estyniad arfaethedig i ffin yr Ardal Gadwraeth*



# 4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol geisio cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu'n fanwl ar geisiadau cynllunio gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

## 4.2 Aberteifi

4.2.1 Mae sawl dogfen reoli yn bodoli ar gyfer Aberteifi a'r ardal gadwraeth.

4.2.2 Darparwyd Cynllun Rheoli drafft i gynorthwyo gyda'r astudiaeth hon. Mae'n dyddio o 2010 ac yn dilyn ymlaen o'r cynllun Menter Treftadaeth Treflun llwyddiannus a gafodd ei gynnal yn y dref.

4.2.3 Mae'r arolwg tref hanesyddol gan Cambria Archaeology (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed) o 2007 yn ddogfen bwysig a dilys o hyd ac yn ymwneud yn bennaf ag archeoleg gladdedig ond gyda pheth perthnasedd i adeiladau sy'n sefyll.

4.2.4 Felly nid oes unrhyw arfarniad a chynllun rheoli cyfredol a mabwysiedig ar gyfer yr ardal gadwraeth.

## 4.3. Argymhelliad

4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberteifi ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal.

4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio, ffenestri a drysau

hanesyddol, microgynhyrchu a chynaliadwyedd, ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Dylai'r canllawiau cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni roi sylw i:

- ***Cynnal a Chadw:*** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.
- ***Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:*** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.



***Ffig. 50 Gellir uwchraddio adeiladau traddodiadol mewn modd sensitif er mwyn gwella eu perfformiad thermol heb ddifrodi nodweddion arwyddocaol***

- ***Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:*** Dylai'r canllawiau gynnwys: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

4.3.4 Darparu dehongliad ychwanegol ynglŷn â'r Cei a hanes morwrol Aberteifi mewn modd nad yw'n ychwanegu at annibendod stryd yn yr ardal hon. Gallai hyn fod yn ychwanegiad at arwyddion presennol, trwy gelfyddyd stryd neu farddoniaeth, ar-lein, codau QR, (hunan) teithiau cerdded tywys, neu ddulliau eraill.

4.3.5 Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hanes y ffeiriau blynyddol trwy gyhoeddiadau yn y wasg, cyfryngau cymdeithasol â thema a mwy o gyfranogiad yn y digwyddiadau.

4.3.6 Diweddaru'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddosbarthu a darparu hyfforddiant.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o asedau hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.

5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.

5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.

5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisïau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.

5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

### 5.2 Aberteifi

5.2.1 Mae gan Aberteifi ychydig o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.

5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:

- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
- Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
- Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
- Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

### 5.3 Argymhelliad

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) fel y nodwyd yn yr arfarniad y gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys:

- 29 a 30 Ffordd y Gogledd
- Dylid asesu'r holl adeiladau nad ydynt yn rhestredig ar hyd Pendre a'r Stryd Fawr ond yn benodol: 4, 5, 6 Pendre; 23 Pendre; 50 Pendre; 52 Pendre; 54, 55, 56 Pendre; 3 y Stryd Fawr, 21, 22, 23, (mae 24 wedi'i restru ond gall fod yn anghywir ar ddisgrifiad y rhestr), 25, 26 y Stryd Fawr, 34 y Stryd Fawr, 39 y Stryd Fawr
- 4 Stryd y Priordy
- Yr Hen Orsaf Heddlu a'r Llys ar Stryd y Priordy

***Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiadau hyn, mae aelodau o'r gymuned leol wedi gwirfoddoli i gynorthwyo gyda'r gwaith o gasglu a chynnal arolwg o'r adeiladau o ddiddordeb lleol. Mae cyfarfodydd cychwynnol eisoes wedi eu cynnal***




***Ffig. 51 Gall rhoi cyngor i ddarpar berchnogion newydd adeiladau sydd ar werth ar hyn o bryd helpu i atal gwaith anawdurdodedig***

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.

6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLl am gyngor.

6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.

6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Aberteifi

6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Aberteifi.

6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

### 6.3 Argymhelliad

6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.

6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.

6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.



*Ffig. 52 Mae'r Cei wedi cael ei adfywio i fod yn lle ar gyfer perfformio a digwyddiadau awyr agored*

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbrisio.

## 7.2 Aberteifi

7.2.1 Mae Aberteifi wedi elwa o gynllun Menter Treftadaeth Treflun cynhwysfawr a llwyddiannus yn gynnar yn yr 21ain ganrif.

7.2.2 Cwblhawyd dros 70 o brosiectau, pob un ohonynt naill ai ar y Stryd Fawr neu yn yr ardal gyfagos i brif strydoedd siopa'r dref. Roedd gwelliannau'n cynnwys disodli nodweddion pensaernïol 'a gollwyd' a blaenau siopau newydd gan ddefnyddio arddulliau a deunyddiau traddodiadol.

7.2.3 Ers 2001 mae nifer o gynlluniau 'Adfywio' neu 'Adnewyddu' eraill wedi cael eu sefydlu gan adeiladu ar lwyddiant y Fenter Treftadaeth Treflun gychwynnol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun 'Grant Gwella Tref' Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), Cynllun Adfywio Aberteifi a De Ceredigion a 'Chynllun Adnewyddu Ardal' LlCC. Yn 2005 fe wnaeth cynllun grant Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd ychwanegu at ail gam y cynllun Menter Treftadaeth Treflun cychwynnol. Hefyd mae cynllun adnewyddu ardal afon Teifi, cynllun datblygu'r castell a chynllun ailddatblygu sylweddol yng nghanol y dref wedi cael ei gymeradwyo neu ei gynnig.

7.2.4 Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid wedi dangos dycnwch clodwiw i adeiladu ar y gwelliannau a wnaed o fewn y cynlluniau hyn a sicrhau arian ychwanegol i'r dref.

## 7.3 Argymhelliad

7.3.1 Mae peth pryder y bydd perchnogion a meddianwyr yn dibynnu ar gyllid allanol i wneud gwaith hanfodol sy'n angenrheidiol i gadw golwg y dref.

7.3.2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.

7.3.3 Yn unol â Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberystwyth, dylai'r Cyngor geisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu sefydliad hyfforddi Cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad

Ymchwil Adeiladu (BRE), Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg. Gallai hyn hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y trefi a'r ardaloedd cyfagos. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaernïaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin.

7.3.4 Dylai cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill a allai effeithio ar ardaloedd y Cei ddefnyddio egwyddorion dylunio sy'n seiliedig ar dreftadaeth a sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer gwelliannau ffisegol, dehongli, a chyfraniad at fywiogrwydd y dref. Rhaid parchu safbwyntiau pwysig.

7.3.5 Mae ychydig o adeiladau gwag yng nghanol y dref ac mae rhai ohonynt yn Rhestredig (gweler Adran 9). Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid megis y Cyngor Tref a fforymau busnes lleol i nodi defnyddiau priodol ac annog perchnogion i atgyweirio adeiladau mewn modd sensitif fel eu bod yn ddeniadol i fuddsoddwyr. Mae nifer o offer ar gael i'r Cyngor eu defnyddio i 'annog' perchnogion i wella eu heiddo megis Hysbysiadau Atgyweirio, Hysbysiadau Adran 105, a Hysbysiadau Gwaith Brys. Yn gyffredinol mae angen rhywfaint o ymrwymiad ariannol gan y Cyngor ar gyfer y rhain ond yn ddiweddar mae grantiau wedi bod ar gael gan Cadw i gynorthwyo gyda gweithgareddau o'r fath. Dylai'r Cyngor sicrhau eu bod yn barod i fanteisio ar gynlluniau o'r fath pe baent yn cael cynnal eto.

***Ffig. 53 Mae'r Adeilad Rhestredig Gradd II Capel y Tabernacl yn wag ar hyn o bryd. Mae Cymdeithas Aberteifi am ei brynu i greu Canolfan Farddoniaeth***



7.3.6 Ymchwilio i'r posibilrwydd o siopau gwib mewn adeiladau gwag yn y brif ardal siopa, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau.

7.3.7 Ystyried cynhyrchu canllawiau dylunio datblygu manwl ar gyfer safleoedd o fewn neu gerllaw'r ardal gadwraeth a nodir ar gyfer defnydd cymysg, tai neu ddatblygiadau cyflogaeth yn y CDLl (M0201, E0202, H0204) ac ar gyfer safleoedd sy'n cael eu hailddatblygu o fewn yr ardal gadwraeth, yn enwedig ailddatblygu'r ychydig adeiladau o ansawdd gwael o'r 20fed ganrif.

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrddau o amgylch safleoedd datblygu.

8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.




***Ffig. 54 Mae gan Black Lion Mews lawer iawn o arwyddion anghydlynol***

## 8.2 Aberteifi

8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol bywiog. Mae'r ardal hon yn cynnwys ffryntiadau siopau hanesyddol, tafarndai ac adeiladau dinesig sydd wedi goroesi ac sydd wedi'u disodli. Mae rhywfaint o ffasgia a hysbysebion siopau o ansawdd gwael neu wedi'u dylunio'n wael, yn enwedig mewn ffenestri siopau mawr.

8.2.2 Lle mae nifer o siopau bach mewn lôn neu ardal farchnad mae arwyddion anghydlynol wedi pentyrru.

## 8.3 Argymhelliad

8.3.1 Ni ystyrir bod angen ardal o reolaeth hysbysebu arbennig yn Ardal Gadwraeth Aberteifi ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylai trafodaethau â pherchnogion a rheolwyr siopau fod yn flaenoriaeth.

8.3.2 Dylid annog perchnogion siopau bach i gydweithio i gynhyrchu arwyddion cydlynol lle mae arwyddion ar gyfer nifer o siopau ar y Stryd Fawr.

8.3.3 Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gyda hyrwyddo ychwanegol trwy ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

# 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

## 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw conglfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

## 9.2 Adeiladau Gwag yn Aberteifi

9.2.1 Mae nifer fach o adeiladau gwag o fewn y brif ardal siopa sydd ar hyn o bryd yn cael effaith negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal. Mae arwyddion clir nad yw'r adeiladau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw ac y gallent fod mewn perygl, ond o gael eu cadw byddent yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal. Mae'r rhai a nodwyd yn cynnwys:

- The Hope and Anchor Public House – 51 Pendre – heb ei restru ond yn bwysig i'r strydlun, yn wag
- Capel y Tabernacl a Thŷ'r Gofalwr, gan gynnwys waliau'r blaen-gwrt, gatiau a rheiliau, Pendre – Rhestredig Gradd II, yn wag
- 4 y Stryd Fawr, cyn dŷ a Banc Natwest – Rhestredig Gradd II, yn wag

- Castle Inn, Bridgend – Rhestredig Gradd II, yn wag
- 26 Heol Llandudoch, cyn dafarn a bwyty – heb ei restru ond yn bwysig i'r strydlun, yn wag ac ar werth

## 9.3 Argymhelliad

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk).

9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.




*Ffig. 55 Mae hen Fanc Natwest sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II yn wag ar hyn o bryd. Mae gwaith cynnal a chadw yn dechrau cronni ac ni fydd yn hir cyn iddo fod yn adeilad mewn perygl*

9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Gweler Adran 7.3.3 am awgrymiadau ynghylch cynlluniau. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardal gadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.

## 10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cynghorau Tref a fforymau busnes.

10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerwyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.

10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

### 10.2 Aberteifi

10.2.1 Trwy'r Fenter Treftadaeth Treflun a chynlluniau adfywio eraill, mae CSC eisoes wedi datblygu partneriaethau gydag amrywiol sefydliadau a grwpiau lleol a chenedlaethol.

10.2.2 Mae rhai enghreifftiau o estyniadau bach wedi'u dylunio'n wael a defnydd o ddeunyddiau amhriodol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n effeithio'n negyddol ar y golwg a'r cymeriad cyffredinol.

10.2.3 Mae dodrefn stryd, y parth cyhoeddus, ac arwynebau yn gydnaws yn gyffredinol â chymeriad hanesyddol yr ardal, ond mae rhai enghreifftiau o ddewisiadau gwael megis lledu'r palmant tarmac newydd, bolardiau plastig newydd, annibendod arwyddion, goleuadau stryd sydd wedi'u dylunio'n wael, a defnydd helaeth o linellau melyn dwbl sy'n amharu ar ansawdd cyffredinol yr ardal.

10.2.4 Yn gyffredinol mae meysydd parcio cyhoeddus wedi'u lleoli y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth ond yn weledol gallant dal i fod yn ymwthiol ac yn gyffredinol dyma'r rhan gyntaf o'r dref y bydd ymwelwyr yn ei dod ar ei thraws.




*Ffig. 56 Gall cynlluniau gwella amgylcheddol bach wneud gwahaniaeth mawr i gymeriad a golwg cyffredinol ardal*

10.2.5 Mae'r ardal fach ar lan yr afon ger The Bathroom Centre ar y Strand wedi'i nodi drwy'r broses ymgynghori fel ardal ar gyfer gwelliant amgylcheddol posibl. Mae potensial hefyd i wella rhai safleoedd bach eraill, megis ar hyd Stryd Morgan a Mwldan Ganol.

## 10.3 Argymhellion

10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.

10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.

10.3.3 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel *'Streets for All'* Historic England (https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/).

10.3.4 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Dylid cwmpasu arwynebu, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau, llinellau melyn a mesurau gostegu traffig, nodweddion priffyrdd a diogelwch.

10.3.5 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr megis codi sbwriel, gwella meysydd parcio, nodi arwyddion i'w symud, ac ati (gweler: https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.

10.3.6 Gyda'r gymuned leol, cynnal asesiad o'r meysydd parcio o amgylch ffin yr ardal gadwraeth ac ystyried cynlluniau gwella, megis ail-wynebu, plannu coed, gwrychoedd, waliau cerrig naturiol neu'r tebyg i wella eu heffaith gweledol.

10.3.7 Gyda'r gymuned leol, nodi safleoedd ar gyfer gwelliant amgylcheddol, megis safle glan yr afon drws nesaf i'r Bathroom Centre a safleoedd ar hyd Stryd Morgan a Mwldan Ganol, a gweithio gyda'r perchnogion, y Cyngor Tref a Chymuned i ddatblygu syniadau ar gyfer gwella'r mannau hyn.

## 11. COED. TIRWEDD A MANNAU AGORED

### 11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â mannau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

### 11.2 Aberteifi

11.2.1 Mae gan Aberteifi nifer o goed unigol ac ardaloedd o orchudd coed yng nghanol y dref (gweler adran 12 o'r ddogfen arfarniad) sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg.

11.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi nifer o fannau agored bach yn bennaf sy'n cyfrannu'n fawr at gymeriad a bywiogrwydd Ardal Gadwraeth Aberteifi.

11.2.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd sydd, ynghyd ag ymgysylltu â'r cyhoedd, wedi llywio'r Strategaeth ar gyfer Gwyrddu ei 6 phrif dref, gan gynnwys Aberteifi.




***Ffig.57 Mae mannau agored fel yr ardal fach wrth ochr Neuadd y Sir yn fannau allweddol ar gyfer ymgynnull neu ar gyfer cynnal digwyddiadau bach a gellir eu gwella'n gymharol hawdd***

## 11.3 Argymhelliad

11.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol Seilwaith Gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.

11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd.

11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a/neu gynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

11.3.4 Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl.

# 12. MONITRO AC ADOLYGU

## 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.

12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

## 12.2 Aberteifi

12.2.1 Lluniwyd cynllun rheoli ar gyfer Aberteifi yn dilyn gweithredu'r cynlluniau gwella treflun. Nid yw'n sicr a gafodd y ddogfen hon ei mabwysiadu ond serch hynny mae wedi dyddio braidd erbyn hyn ac nid oedd yn cynnwys arfarniad llawn o gymeriad a golwg yr ardal.

12.2.2 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

## 12.3 Argymhellion

12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

12.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

12.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

12.3.5 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cynghorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.




***Ffig. 58 Mae'n bwysig adeiladu ar lwyddiannau blaenorol a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod canol hanesyddol y dref yn parhau i fod yn ddeniadol, yn fywiog ac yn gynaliadwy***

## ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lyw-io'r broses gwneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn** |
| Gweithredu'r estyniad ffin arfaethedig. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllun-io, Cyfreithiol | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn**<br>**Parhaus** |
| Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn def-nyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad un-rhyw gynigion. Llunio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth. Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau new-ydd o fewn ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu<br>Cynghorau Tref a Chymuned / y gymun-ed leol | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn**<br>**Parhaus** |
| Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu-'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllun-io, Cyfreithiol | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn**<br>**Parhaus** |
| Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol Seilwaith Gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.<br>Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu<br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl a rheoli datblygu. Nodi coed sy'n addas ar gyfer Gorch-mynion Cadw Coed. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu<br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt. | CSC | **Uchel – parhaus** |
| Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni. | CSC | **Uchel – parhaus** |

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen granti-au blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen. | CSC – Polisi a Threftadaeth<br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru | **Canolig**<br>**2-3 blynedd** |
| Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberteifi. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn enwedig mewn perthynas â'r Gyfarwyddyd Erthygl 4 bresennol | CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi<br>Y gymuned leol | **Canolig**<br>**2-3 blynedd** |
| Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br>Y gymuned leol | **Canolig**<br>**2-3 blynedd**<br>***(cwblhawyd yn rhannol ar gyfer Aberteifi)*** |
| Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai<br>Y gymuned leol | **Canolig**<br>**2-3 blynedd** |
| Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sef-ydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | CSC – Adfywio, Treftadaeth<br>Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeil-adau Traddodiadol Cymru,<br>Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oed-olion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwyll- | **Canolig**<br>**2-3 blynedd a pharhaus** |
| Annog perchnogion siopau bach i gydweithio i gynhyrchu arwyddion cydlynol. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio<br>Cynghorau Tref a Chymuned / y gymun-ed leol | **Canolig**<br>**2-3 blynedd** |
| Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Priffyrdd<br>Ymgynghorwyr | **Canolig**<br>**2-3 blynedd** |
| Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Mentora'r grŵp hwn i gynnal asesiad o'r meysydd parcio a nodi cynlluniau gwella. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliant amgylcheddol hefyd, meg-is safle glan yr afon wrth ymyl The Bathroom Centre a safleoedd ar hyd Stryd Morgan a Mwldan Ganol. | CSC – Treftadaeth, Polisi<br>Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol | **Canolig**<br>**2-3 blynedd a pharhaus** |

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwy-edd ac effeithlonrwydd ynni ac ati. | CSC – Treftadaeth<br><br>Awdurdodau Lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeil-edig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Darparu dehongliad ychwanegol ynghylch y Cei a hanes morwrol Aberteifi. | CSC – Treftadaeth, Pholisi, Adfywio<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hanes y ffeiriau blynydd-ol, trwy gyhoeddiadau yn y wasg, cyfryngau cymdeithasol â thema a mwy o gyfranogiad yn y digwyddiadau. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Cyfathrebu<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phri-ffyrdd<br><br>Cymuned Lleol, Llywodraeth Cymru? | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cyn-nwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol. | CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghor-wyr | **Isel 5-10 mlynedd** |

## ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH

### Deddfwriaeth a Chanllawiau


Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf

Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment

Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (Argraffiad 12. 2024): https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-02/planning-policy-wales-edition-12_1.pdf

### Llyfryddiaeth

Baynes, TS, ed. (1878) 'County of Cardigan: Cardigan' yn *Encyclopædia Britannica*, cyfrol 5 (9fed argraffaid) Cook, N. a Poucher, P (2007) *Historic Town Surveys of Cardigan and Tregaron* (Cambria Archaeology: Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Griffiths, RA (1990) 'The Making of Medieval Cardigan' yn Ceredigion: *Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi*, Cyfrol XI, Rhif 2, 1990

Jenkins, J. G. (2005) *Ceredigion: Interpreting an Ancient County*.

Kramer, Z. (1972) 'Cardigan and the River Teifi' yn *Ceredigion: Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi*, Cyfrol VII, Rhif 1, 1972.

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*

Lewis, W. J. (1970) *An Illustrated History of Cardiganshire*

LUC (2024) Ceredigion: *Strategaeth ar gyfer Gwyrddu 6 Thref.* https://lucmaps.co.uk/CeredigionGBIDigitalReport/

Lloyd and Turner. (1794) *Cardigan*.

Murphy, K (2021) The Archaeology of the Medieval Towns of Southwest Wales (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed) https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/historic-towns-2020/EPRN_125663_CARDIGAN.pdf

O'Mahoney, C. 'Excavation and Survey at Cardigan Castle' yn *Ceredigion* Cyfrol X

Peregrine, DJM. (u/d) *Cardigan's Ancient Borough*.

Peregrine, DM. (1954) *A Brief Historical and General Survey of St. Mary's Parish Church*, Cardigan

Sampson, AA. (1972) *Aberteifi (Cardigan)*

Sanders, IJ. (1954) 'The Boroughs of Aberystwyth and Cardigan in the early fourteenth century' ym *Mwletin y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd*, Cyfrol XV

### Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd

https://archives.library.wales/

https://archives.wales/

https://archwilio.org.uk/

https://www.britainexpress.com/

https://www.british-history.ac.uk/

https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records

https://cardigancastle.com/history/

https://cardiganthroughtheages.com/

https://www.castlewales.com/cardigan.html

https://ceredigionhistory.wales/

https://coflein.gov.uk

https://datamap.gov.wales/

https://discovery.nationalarchives.gov.uk/

https://www.discoverceredigion.wales/areas-of-ceredigion/

https://en.wikipedia.org

https://en-gb.topographic-map.com

https://www.genuki.org.uk/big/wal/CGN/Cardigan/Cardigan

https://www.google.com/maps/

https://www.peoplescollection.wales/

https://www.visitcardigan.com/explore/history/

https://www.walesonline.co.uk/